



## Polisi Preifatrwydd Cyswllt Amgylchedd Cymru

Mae'r Cyswllt wedi ymrwymo i warchod preifatrwydd a diogelwch yr wybodaeth personol yr ydym yn ei chynnal. Mae'r Cyswllt yn rheolwr data at bwrpasau Deddf Gwarchod Data 2018 a'r Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol a ddaeth i rym ar 25 Mai 2018. Mae Cyfarwyddwr y Cyswllt yn gweithredu fel y Rheolwr Data dynodedig gyda chyfrifoldeb drwyddo draw am sicrhau bod y corff yn cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth hon.

Mae'r Polisi Preifatrwydd hwn yn egluro sut a pham yr ydym yn casglu gwybodaeth personol am aelodau'r Cyswllt a thrydydd person.

Mae'r Cyswllt yn prosesu gwybodaeth personol i'n galluogi ni i ddarparu gwasanaeth aelodaeth er budd y cyhoedd yn genedlaethol fel a nodir yn ein cyfansoddiad, yn cynnwys:

- gweinyddu cofnodion aelodaeth;
- codi arian a hyrwyddo buddiannau yr elusen;
- rheoli ein staff cyflogedig a'n gwirfoddolwyr; a
- chynnal ein cyfrifon a'n cofnodion ein hunain.

Ambell dro rydym yn cofnodi manylion cyswllt cynrychiolwyr cyrff trydedd blaid fel rhan o weithgareddau gwaith cyfreithiol y Cyswllt. Mae eich gwybodaeth personol yn ddiogel gyda ni ac ni fydd byth yn cael ei rhyddhau i gwmnïau trydedd blaid ar gyfer eu pwrpasau marchnata.

**Amcan elusenol** y Cyswllt, fel a nodir yn ein cyfansoddiad, yw hyrwyddo cadwraeth, gwarchodaeth, defnydd cynaliadwy a mwynhad tawel a chyfrifol o dreftadaeth naturiol a diwylliannol Cymru er budd y cyhoedd.

### Sail gyfreithlon ar gyfer prosesu eich data

Rydym yn cadw data aelodau'r Cyswllt yn seiliedig ar **fuddiannau cyfreithlon**.

Rydym yn cadw manylion cyswllt personol Ymddiriedolwyr y Cyswllt ar sail **oblygiad gyfreithlon**.

### Pwy sy'n ei gasglu a sut mae'n cael ei gasglu?

Mae'r Cyswllt yn casglu data drwy gyfrwng y broses o wneud cais am aelodaeth, megis manylion cyswllt cynrychiolydd Cyngor y corff a chyfeiriad busnes y corff. Fe all unrhyw aelod o dîm staff y Cyswllt gasglu eich data personol drwy gyfrwng eu gwaith a thrwy gyfrwng rhyngweithio gydag aelodau, ymholwyr, cynghorwyr a chynrychiolwyr cyrff eraill.

Mae'r Cyswllt yn defnyddio Dropbox ar gyfer *Business* a *Microsoft Exchange* i storio data aelodaeth a manylion cyswllt eraill yn ddiogel yn y cwmwl. Mae holl staff y Cyswllt yn gallu cael mynediad i'n systemau'n seiliedig ar gwmwl a defnyddir cyfrinair personol i fynd i mewn i'r system a gwarchodaeth cyfrinair ar gyfer pob aelod o staff.

Mae'r Cyswllt yn defnyddio [Dropbox for Business](#) a [Microsoft Exchange](#) i storio data aelodaeth a manylion cyswllt eraill yn ddiogel yn y cwmwl. Mae ein systemau sy'n seiliedig ar gwmwl yn

hygyrch i holl staff y Cyswllt ac yn defnyddio cyfrinair personol a gwarchodaeth cyfrinair ar gyfer pob aelod o staff.

Mae'r Cyswllt hefyd yn defnyddio [Basecamp](#), arf cyfathrebu ar-lein sy'n seiledig ar gwmwl, i alluogi ein haelodau i gysylltu â'i gilydd a chydweithio'n fwy effeithiol. Er mai staff y Cyswllt sy'n gweinyddu'r arf hwn, mae Basecamp yn galluogi ein haelodau i reoli eu data personol eu hunain drwy eu cyfrif eu hunain, a dewis pa ffyrddiau gwybodaeth i danysgrifio iddyn nhw.

### **Defnyddio eich gwybodaeth**

Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth:

- i adael i chi wybod ar beth yr ydym yn gweithio ac i rannu gwybodaeth sy'n berthnasol i fuddiannau aelodau'r Cyswllt
- i anfon ein hadroddiad monitro gwleidyddol wythnosol a chyfathrebiadau eraill atoch
- i'ch gwahodd i ddiwyddiadau'r Cyswllt, neu i ddiwyddiadau trydedd blaid eraill a all fod o ddiddordeb
- i ofyn am eich cefnogaeth gydag ymgyrchoedd y Cyswllt neu aelodau
- i ofyn am eich cyngor neu fewnbwn i amrywiol ddarnau o waith y Cyswllt
- i ofyn i chi enwebu a/neu bleidleisio ar faterion cyfansoddiadol, chwilio am gyfraniadau ariannol i broiectau, a chymryd rhan mewn holiaduron/arolygon y Cyswllt.

### **Datgelu eich gwybodaeth**

Ni fyddwn byth yn datgelu eich gwybodaeth i unrhyw un oddi allan i'r Cyswllt heblaw lle rydym wedi sicrhau eich caniatâd neu fel arall yn cael gwneud hynny yn ôl y gyfraith.

### **Gwefan y Cyswllt a gwefannau trydedd blaid**

Nid yw gwefan y Cyswllt yn defnyddio cwicis ac mae ein [polisi cwicis](#) ar ein gwefan. Fe all ein gwefan ddarparu cysylltau gyda gwefannau eraill y tu hwnt i'n rheolaeth ni; mae ein polisi preifatrwydd yn berthnasol i'n gwefan ni, y Cyswllt, [www.waleslink.org](http://www.waleslink.org), yn unig. Nid ydym yn gyfrifol am bolisiau preifatrwydd safleoedd trydedd blaid eraill a all fod yn wahanol i'n rhai ni. Ni allwn dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw gynnwys neu gysylltau ar wefannau trydedd blaid.

### **Storio gwybodaeth**

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol nes na fyddwn ei hangen mwyach i'ch darparu chi â'n gwasanaethau/cynnyrch. Byddwn yn ceisio cadw gwybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch yn gyfredol, ond os credwch ein bod yn cadw gwybodaeth nad yw'n fanwl gywir yna cofiwch gysylltu â ni i adael i ni wybod.

### **Cael mynediad i'ch gwybodaeth**

Un unol â'r RhGDC (GDPR), mae gan unigolion yr hawl i gael:

- cadarnhad bod eu data'n cael ei brosesu;
- mynediad i'w data personol; a
- gwybodaeth atodol arall.

Gallwch wneud cais am gopi o'ch gwybodaeth bersonol ar lafar neu'n ysgrifenedig. Os hoffech gael copi o'r wybodaeth bersonol amdanoch a gedwir gennym, y ffordd orau i gael gafael ar yr wybodaeth yw drwy e-bostio Cyfarwyddwr y Cyswllt neu cysylltwch â ni: Cyswllt Amgylchedd Cymru, Tŷ Baltig, Sgŵar Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH neu ar 02920 497509.

## **Cywiro gwybodaeth**

Mae gan unigolion hawl i gywiro data personol nad yw'n fanwl gywir a gellir gwneud hyn drwy gysylltu â swyddfa'r Cyswllt un ai ar lafar neu'n ysgrifenedig (gweler y manylion cyswllt uchod).

## **Hawl i ddileu**

Mae gan unigolion hawl i ofyn am ddileu eu data personol. Gelwir hyn hefyd 'yr hawl i gael ei anghofio' (*nid yw'r hawl yma'n absoliwt a dim ond o dan amodau penodol y mae'n berthnasol*) a gellir gwneud hyn drwy gysylltu â swyddfa'r Cyswllt un ai ar lafar neu'n ysgrifenedig (gweler y manylion cyswllt uchod).

## **Newidiadau i'n polisi preifatrwydd**

Byddwn yn parhau i adolygu ein polisi preifatrwydd; mae'r polisi hwn yn cymryd lle pob fersiwn flaenorol ac mae'n gywir o fis Mawrth 2019 ymlaen. Cyhoeddir polisiau newydd ar ein gwefan.

## **Cysylltu â ni**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu sylwadau am ein polisi preifatrwydd cysylltwch os gwelwch yn dda â Chyfarwyddwr y Cyswllt ar e-bost neu ar 02920 497509, neu ysgrifennwch atom, Cyswllt Amgylchedd Cymru, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH.